Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y diwygiadau i Gymorth Cyfreithiol

Hysbysiad Hwylus

Rhagfyr 2013

## Cyflwyniad

Mae'r Hysbysiad Hwylus hwn yn canolbwyntio ar y system Cymorth Cyfreithiol sifil gyfredol yng Nghymru a Lloegr yn dilyn newidiadau a roddwyd ar waith ym mis Ebrill 2013. Trafodir hefyd rai cynigion sy'n ymwneud â Chymorth Cyfreithiol troseddol.

Ystyr Cymorth Cyfreithiol yw ariannu costau cyfreithiol o'r cronfeydd cyhoeddus. Mae systemau ar wahân ar gyfer Cymorth Cyfreithiol sifil a Chymorth Cyfreithiol troseddol. Nid yw'r cyfrifoldeb am y system Cymorth Cyfreithiol wedi'i ddatganoli i Gymru. Roedd y cytundeb clymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yn 2010 yn cynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad sylfaenol o Gymorth Cyfreithiol er mwyn iddo weithio'n fwy effeithlon.[1] Arweiniodd hyn at ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2010 a oedd yn amlinellu cynigion y Llywodraeth ar gyfer newid y Cymorth Cyfreithiol sifil.[2] Yr adeg honno, ni wnaed unrhyw gynigion ar gyfer diwygio Cymorth Cyfreithiol troseddol.

Yr oedd y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd yn 2010 yn awgrymu cwtogi ar y meysydd cyfraith yr oedd cymorth ar gael iddynt, newid y meini prawf cymhwysedd, a gostwng y ffioedd a oedd yn daladwy i ddarparwyr (cyfreithwyr ac ati) am waith Cymorth Cyfreithiol. Bryd hynny, dywedodd Llywodraeth y DU ei bod yn credu bod Cymorth Cyfreithiol wedi ehangu ymhell y tu hwnt i'w fwriad gwreiddiol a'i fod ar gael ar gyfer amrywiaeth eang o faterion. Ym marn y Llywodraeth yr oedd llawer ohonynt yn rhai nad oedd angen eu datrys drwy'r llysoedd.[3] Roedd y cynigion yn anelu at arbed £350 miliwn o'r gyllideb Cymorth Cyfreithiol flynyddol o £2 biliwn.[4]

Yn ei sylwadau ar y cynigion mewn Datganiad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 21 Mehefin 2011, dywedodd Kenneth Clarke QC AS, a oedd bryd hynny'n Arglwydd Ganghellor ac yn Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, y byddai Cymorth Cyfreithiol yn cael ei ddiddymu neu ei gyfyngu gan y cynigion, ac eithrio mewn achosion lle mae bywyd neu ryddid pobl yn y fantol, lle maent mewn perygl o ddioddef niwed corfforol difrifol, lle maent mewn perygl o golli eu cartref yn fuan, neu lle gallai eu plant gael eu cymryd i ofal.[5]

Er bod yr ymgynghoriad wedi dangos bod gwrthwynebiad eang i'r cynigion, a bod y proffesiwn cyfreithiol yntau yn erbyn, aeth y llywodraeth ymlaen â'i chynlluniau. Daeth y diwygiadau i rym, bron yn union fel yr oeddynt yn wreiddiol, gyda phasio *Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012*. Cychwynnodd y darpariaethau a oedd yn ymwneud â Chymorth Cyfreithiol sifil, neu wasanaethau cyfreithiol sifil fel y'i gelwir yn y ddeddfwriaeth, ar 1 Ebrill 2013. Mae'r rhai sy'n feirniadol o'r Ddeddf - ac mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn eu plith - wedi awgrymu y gallai'r newidiadau hyn olygu na fydd pobl sy'n agored i niwed yn gallu cael mynediad i'r prosesau cyfiawnder, ac y byddant yn arwain at fwy o bobl yn ymgyfreitha drostynt eu hunain, ac yn achosi tagfeydd yn y llysoedd drwy geisio cyflwyno eu hachosion eu hunain.

---

[1] Llywodraeth EM, ***The Coalition: our programme for government***, Mai 2010, t.23 [fel ar 8 Hydref 2013]
[2] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ***Proposals for the Reform of Legal Aid in England and Wales***, Tachwedd 2010 [fel ar 8 Hydref 2013]
[3] **Memorandwm Esboniadol i'r *Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil*** *(Meini Prawf Cymhwystra) 2013*, para 7.1 [fel ar 8 Hydref 2013]
[4] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ***Proposals for the Reform of Legal Aid in England and Wales***, Tachwedd 2010 para 1.4 [fel ar 8 Hydref 2013]
[5] **HC Deb 21 Mehefin 2011 c166** [fel ar 14 Tachwedd 2013]

Ym mis Ebrill 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu cyfyngu ymhellach ar gwmpas Cymorth Cyfreithiol, ac addasu'r prawf cymhwystra ariannol a'r prawf teilyngdod mewn rhai meysydd, gan gynnwys y gyfraith garchardai.[6] Hefyd, mae'r cynlluniau newydd yn cynnwys cynigion i ddiffynyddion yn Llys y Goron gyfrannu at eu costau cyfreithiol eu hunain, cyflwyno prawf preswyliaeth ar gyfer Cymorth Cyfreithiol sifil, a chyfyngu ar Gymorth Cyfreithiol ar gyfer adolygiadau barnwrol "gwan". Heblaw hynny, roedd Llywodraeth y DU wedi cynnig yn wreiddiol bod proses dendro ar sail prisiau cystadleuol yn cael ei chyflwyno ar gyfer gwasanaethau Cymorth Cyfreithiol troseddol. Profodd y cynnig hwnnw'n ddadleuol dros ben oherwydd byddai, o bosibl, wedi golygu bod llai o gwmnïau yn darparu gwasanaethau dros ardal ddaearyddol a byddai wedi cael gwared ar allu'r cleient i ddewis. Golygai hynny na fyddai pobl a gyhuddwyd o drosedd yn gallu dewis eu cyfreithiwr eu hunain. Fe'i gwnaed yn glir gan Chris Grayling AS, yr Arglwydd Ganghellor, mai'r rheswm am y cynnig hwn oedd rhoi mwy o sicrwydd i ddarparwyr o ran maint eu llwyth achosion, gan ei gwneud yn haws ac yn fwy rhagweladwy iddynt drefnu eu busnesau i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf costeffeithiol i'r trethdalwr.[7] Fodd bynnag, mae'r cynnig hwnnw wedi cael ei ollwng. Cafodd ei ddisodli gan fodel a fyddai, i bob pwrpas, yn golygu bod cleientiaid sy'n gwneud cais am Gymorth Cyfreithiol troseddol yn cael yr un lefel o ddewis â'r hyn y maent yn ei gael nawr.[8] Daeth yr ymgynghoriad ar y cynigion newydd i ben ar 1 Tachwedd 2013.

## Y gwasanaethau y gall Cymorth Cyfreithiol eu darparu

Gall Cymorth Cyfreithiol ddarparu amryw o wasanaethau[9], gan gynnwys:

- **Cymorth Cyfreithiol**, sy'n darparu cyngor a chymorth cychwynnol ynghylch problem gyfreithiol sifil, gan gynnwys drafftio llythyrau a thrafod gyda thrydydd partïon;
- **Help yn y Llys**, sy'n darparu rhywfaint o gymorth (a all gynnwys rhywfaint o eiriolaeth) yn y llys, heb fod y cleient yn cael ei gynrychioli'n ffurfiol yn ystod yr achos. Er enghraifft, help gyda chais i atal gwarant meddiannu;
- **Cymorth i Deuluoedd,** i roi cymorth gydag anghydfodau teuluol;
- **Cyfryngu teuluol** (neu help gyda chyfryngu teuluol) i helpu i ddod i gytundeb â chyn bartner (gan gynnwys partner o'r un rhyw) heb fynd i'r llys;
- **Cynrychiolaeth gyfreithiol** yn y llys neu mewn rhai tribiwnlysoedd.

## Cymhwystra ar gyfer Cymorth Cyfreithiol sifil

Newidiodd y meini prawf cymhwystra ar 1 Ebrill 2013.[10] Mae nifer o brofion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall person gael cyllid ar gyfer Cymorth Cyfreithiol sifil:

- Rhaid i'r achos fod o fewn **cwmpas** yr hyn y gellir ei ddarparu gan Gymorth Cyfreithiol (gweler yr adran nesaf am ddadansoddiad llawn);
- Rhaid cynnal prawf o **adnoddau ariannol** yr ymgeisydd;[11]

---

[6] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ***Transforming Legal Aid: delivering a more credible and efficient system***, 9 Ebrill 2013 [fel ar 22 Tachwedd 2013]
[7] Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin, *Transforming Legal Aid: evidence taken by the Committee*, 16 Gorffennaf 2013, **Atodiad B** [fel ar 14 Tachwedd 2013]
[8] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ***Transforming Legal Aid: Next Steps***, Medi 2013, para 2.27 [fel ar 8 Hydref 2013]
[9] *Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Cymhwystra) 2013, Rheoliadau 12-19 (OS 2013/104) / CAB AdviserNet*
[10] *Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr*, adran 11, a *Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Cymhwystra) 2013* (SI 2013/104)
[11] Yn amodol ar rai eithriadau. Hefyd, mae gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ddisgresiwn wrth gymhwyso'r meini prawf cymhwystra ariannol mewn achosion penodol. Gweler *Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Adnoddau Ariannol a Thalu am Wasanaethau 2013* (OS 2013/480)

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi Cerdyn Cyfeirio (Keycard) fel y gall darparwyr gwasanaethau cyfreithiol benderfynu a yw ymgeisydd yn debygol o lwyddo yn y prawf o adnoddau ariannol.[12]

- Rhaid i'r ymgeisydd, fel rheol, fodloni **prawf teilyngdod** sydd yn cynnwys bod â gobaith rhesymol (siawns o lwyddo o 50% neu well) o ennill yr achos. Mewn rhai achosion nid yw'r gobaith o ennill achos yn ffactor wrth ddyfarnu Cymorth Cyfreithiol.[13]

Mae nifer o feini prawf teilyngdod cyffredinol sy'n berthnasol i bob achos o fewn categorïau penodol (er enghraifft y rhai sy'n ceisio help gan y llys), a hefyd meini prawf teilyngdod penodol sy'n gymwys i fathau penodol o achosion (er enghraifft, achosion iechyd meddwl). Caiff y meini prawf penodol ddatgymhwyso, addasu neu ychwanegu at y meini prawf cyffredinol.

Mewn ymgynghoriad pellach, a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2013, awgrymodd Llywodraeth y DU y dylai'r prawf teilyngdod gael ei gryfhau.[14]

### Ariannu achosion eithriadol

Fel diogelwch ychwanegol, mae gan y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol bwerau i sicrhau bod arian ar gael ar gyfer achosion eithriadol lle byddai methiant i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol i unigolyn yn groes i:

- hawliau'r unigolyn o dan y Confensiwn (o fewn ystyr **Deddf Hawliau Dynol 1998**); neu
- unrhyw hawliau sydd gan yr unigolyn i gael gwasanaethau cyfreithiol sy'n hawliau y gellir eu gorfodi gan yr UE; neu
- lle mae'n briodol gwneud hynny, yn amgylchiadau penodol yr achos, gan roi sylw i'r risg y byddai methu â darparu gwasanaethau cyfreithiol yn mynd yn groes i'r hawliau uchod.

## Y meysydd cyfraith sy'n gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol sifil

Fel y nodwyd eisoes, ar 1 Ebrill 2013, collodd nifer o feysydd cyfraith eu hawl i gael Cymorth Cyfreithiol sifil. Mae Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2012 yn amlinellu manylion llawn y meysydd sy'n dal yn gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol. Nid yw'r atodlen yn hawdd i'w deall heb groesgyfeirio helaeth o fewn y Ddeddf ac at ddeddfwriaeth arall. Mae ynddi lawer o gafeatau ac eithriadau. Mae'r rhestr ganlynol yn grynodeb o'r prif feysydd sy'n dal i fod yn gymwys i gael gwasanaethau Cymorth Cyfreithiol sifil:

- **Gweithredu yn erbyn yr heddlu etc.** – lle mae'r diffynnydd yn awdurdod cyhoeddus, gyda'r pŵer i gadw, carcharu neu erlyn: dim ond ar gyfer achosion sy'n ymwneud â cham-drin plentyn neu oedolyn agored i niwed neu lle gweithredwyd yn groes, a hynny i raddau sylweddol, i'r cyngor ar hawliau dynol dioddefwyr troseddau rhywiol;
- **Esgeulustod clinigol** – dim ond lle mae anaf niwrolegol i fabanod sydd wedi achosi anabledd difrifol ac a ddigwyddodd yn y groth, yn ystod yr enedigaeth, neu hyd at wyth wythnos ar ôl yr enedigaeth;
- **Gofal yn y Gymuned** – darparu gwasanaethau a chyfleusterau gofal yn y gymuned ar gyfer pobl anabl;
- **Cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor** – apeliadau ar bwynt cyfreithiol i'r Uchel Lys, y Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys;
- **Dyledion** – dim ond ar gyfer ôl-ddyledion morgais a meddiant, gorchmynion i werthu cartref, a methdaliad anwirfoddol lle mae'r cartref yn cael ei gynnwys yn yr ystâd;

[12] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ***Keycard 49***, Ebrill 2013 [fel ar 8 Hydref 2013]
[13] **Memorandwm Esboniadol** i'r *Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Cymhwystra) 2013 (SI 2013/104)* [fel ar 22 Tachwedd 2013]
[14] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ***Transforming Legal Aid: Delivering a more credible and efficient system***, Ebrill 2013 [fel ar 8 Hydref 2013]

- **Gwahaniaethu** – gweithredu'n groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu ddeddfwriaeth flaenorol;
- **Addysg** – dim ond achosion sy'n cynnwys Anghenion Addysgol Arbennig;
- **Teulu** – gwaith yn ymwneud â phlant o dan y gyfraith gyhoeddus; amddiffyn rhag priodasau dan orfod, cam-drin domestig ac amddiffyn rhag aflonyddu; gorfodi cynhaliaeth plant mewn achosion rhyngwladol; gwaith yn ymwneud â phlant o dan y gyfraith breifat a darpariaeth ariannol ar adeg o dor-perthynas, ond dim ond os oes tystiolaeth ddogfennol o gam-drin domestig.
- **Tai** – dim ond achosion lle mae cartref person mewn perygl (ac eithrio tresmaswyr sydd wedi'u troi allan neu'n sy'n wynebu cael eu troi allan, ee sgwatwyr), gan gynnwys amddiffyn achosion meddiant, achosion digartrefedd a throi allan anghyfreithlon; dyraniadau tai lle mae'r cleient yn cael ei fygwth â digartrefedd; darparu llety trwy gyfrwng gwasanaethau gofal yn y gymuned; achosion o dai mewn cyflwr difrifol, ond nad ydynt yn achosion am iawndal yn unig; ymddygiad gwrthgymdeithasol ac amddiffyn rhag aflonyddu; llety a chymorth i geiswyr lloches.
- **Mewnfudo a lloches** – fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r gwaith mewnfudo nad yw'n gysylltiedig â lloches bellach yn gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol
- **Iechyd meddwl** – mae Cymorth Cyfreithiol ar gael ar gyfer achosion iechyd meddwl gan gynnwys materion gallu meddyliol. Mae'n cynnwys cynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer achosion tribiwnlys iechyd meddwl.
- **Amrywiol** – mae'r categori hwn yn cynnwys: penderfyniadau i wahardd gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed; amddiffyn rhag aflonyddu; enillion o droseddau; llygredd amgylcheddol; cyngor i ddioddefwyr troseddau rhywiol; cam-drin plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed (yn amodol ar eithriadau).
- **Gwaharddebau diogelwch rhag aflonyddu** o dan Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, ac i amrywio neu gyflawni gorchymyn atal o dan Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997;
- **Cyfraith Gyhoeddus** – heriau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol a heriau cyfraith gyhoeddus;
- **Budd-daliadau Lles** – ond dim ond apeliadau ar bwynt cyfreithiol i'r Uwch Dribiwnlys (y Siambr Weinyddol) ac apeliadau ar bwynt cyfreithiol i'r Llys Apêl a'r Goruchaf Lys. Mae holl feysydd eraill y gyfraith budd-daliadau lles wedi'u heithrio.

Ffynhonnell: **Legal Action**, Ebrill 2013/**CAB AdviserNet**

## Meysydd nad ydynt bellach yn gymwys am Gymorth Cyfreithiol

Hyd nes pasiwyd Deddf 2012, roedd pob maes cyfraith, fel mater o drefn, yn gymwys am Gymorth Cyfreithiol, oni bai eu bod ar restr o eithriadau. Mae'r sefyllfa hon bellach wedi newid yn llwyr, ac erbyn hyn dim ond y meysydd cyfraith hynny a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2012 sy'n gymwys am gymorth cyfreithiol. Felly, ers 1 Ebrill, 2013, nid yw Cymorth Cyfreithiol ar gael yn y meysydd canlynol:

- **Cyngor ar wneud ewyllys**;
- **Cyfraith busnes**;
- **Cyfraith cwmnïau neu gyfraith partneriaethau**;
- **Contractau defnyddwyr a chontractau cyffredinol**;
- **Trawsgludo**;

- **Achosion yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol**;
- **Difenwad neu anwiredd maleisus**;
- **Cyflogaeth**;
- **Cyngor cyfreithiol mewn perthynas â newid enw**;
- **Materion y gyfraith ymddiriedolaeth**;
- **Anaf personol neu farwolaeth**;
- **Y gyfraith gamweddau a hawliadau cyffredinol eraill**.

Ffynhonnell: **CAB AdviserNet**

## Sut mae cael gwasanaethau Cymorth Cyfreithiol sifil

Ni ellir cael gwasanaethau a ariennir gan Gymorth Cyfreithiol ond gan ddarparwr sydd â chontract gyda'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu cyfleuster chwilio ar-lein, http://find-legal-advice.justice.gov.uk, a all helpu i ddod o hyd i ddarparwr lleol. Fel arall, mae modd dod o hyd i ddarparwr drwy ffonio **llinell gymorth y Cyngor Cyfreithiol Sifil ar 0845 345 4345. Gall llinell gymorth y Cyngor Cyfreithiol Sifil hefyd roi cyngor uniongyrchol mewn amryw o feysydd sydd o fewn cwmpas Cymorth Cyfreithiol.**

Bydd gwasanaethau cyfreithiol mewn rhai meysydd cyfrraith yn cael eu darparu dros y ffôn neu'r e-bost yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

## Gwrthod cymorth cyfreithiol sifil

Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol sy'n gyfrifol am benderfynu a yw cleient yn gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol, yn unol â'r rheolau statudol.

Mae ***Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Gweithdrefn) 2012*** yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer adolygu penderfyniadau ynghylch dyfarnu Cymorth Cyfreithiol, a'r broses apelio. Mae'r gweithdrefnau yn amrywio yn dibynnu ar y math o gymorth cyfreithiol y gwnaed cais amdano, ond mae'n rhaid i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol roi rhesymau am y penderfyniad a gwybodaeth am hawl yr ymgeisydd i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad. Mewn rhai achosion, mae hawl hefyd i apelio i ddyfarnwr annibynnol.

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi disodli'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Yn ei chynllun busnes cyfredol (2013-14)[15] mae'r Asiantaeth yn amlinellu ei gweithrediadau yng Nghymru a Lloegr:

> The Agency will operate throughout England and Wales with a headquarters co-located with that of the MoJ in London.
>
> We will maintain a regional contract management presence in order to be physically close to our provider base and other justice system partners.
>
> Case management activities will be directed from our three largest sites: South Tyneside for Civil and Family; Nottingham for Crime; and London for Exceptional and High Cost cases. In addition to these sites, case working will also be undertaken on a number of sites across England and Wales where we can deliver a cost effective electronically enabled service to our providers.

[15] Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, ***Business Plan 2013/14***, Ebrill 2013 [fel ar 8 Hydref, 2013]

> The Public Defender Service will be administered from Darlington and Cardiff but will provide services in the areas of Pontypridd, Swansea, Cheltenham and Darlington, as well as having a capacity to deliver anywhere in England and Wales in the event of market failure.
>
> The Agency will be a customer for MoJ-wide shared services in Human Resources, Information Technology, Procurement, Internal Audit, Legal and Estates.
>
> In all our locations we will aim to move to be co-located with other MoJ or Civil Service departments in order to reduce our estates costs where it makes economic and strategic sense to do so.

## Y Trefniadau yng Nghymru

Mae gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol swyddfa yng Nghaerdydd. Mae'n nodi fel a ganlyn yn ei Chynllun Busnes 2013/14:

> The Lord Chancellor and Secretary of State for Justice is accountable to Parliament for our activities and performance across England and Wales. In addition, within Wales, the Agency will maintain close links with the Welsh Government, in recognition of the devolved administration This includes working directly with stakeholder groups such as the Welsh Civil Justice Forum and the Criminal and Family Justice Boards in Wales. We will adopt the MoJ's Welsh Language Scheme to continue to meet our statutory obligations and provide access to legal aid services in Wales.

## Rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi cyhoeddi rhestr o gwestiynau cyffredin ynghylch y diwygiadau i Gymorth Cyfreithiol.[16] Gall aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio'r cyfleuster 'Can You Get Legal Aid' offeryn yn **www.gov.uk/legal-aid** i weld a ydynt yn debygol o fod yn gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol. Mae'r cyfleuster yn gwirio cwmpas yr achos yn ogystal â chymhwysedd ariannol yr ymgeisydd.

Yng Nghaerdydd y mae swyddfa'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru:

Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

2ail Lawr

Churchill House

17 Churchill Way

Caerdydd

De Morgannwg

CF10 2HH

Mae amrywiaeth o gyfeiriadau e-bost canolog ar gyfer yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn dibynnu ar y math o ymholiad ydyw. Ceir y manylion ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.[17] Dylai ceisiadau am gyngor cyfreithiol gael eu cyfeirio at y rhai sy'n darparu cyngor neu gellir ffonio **llinell gymorth y Cyngor Cyfreithiol Sifil (CLA) ar 0845 345 4345**, nid yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

[16] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ***Legal Aid Reforms*** [Fel ar 8 Hydref, 2013]
[17] Gwefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, **manylion cyswllt yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol** [fel ar 27 Tachwedd 2013]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Ddiwygio Cymorth Cyfreithiol**, cysylltwch â **Jonathan Baxter** (**jonathan.baxter@cymru.gov.uk**), **Y Gwasanaeth Ymchwil**.

**Gweler hefyd:**

- Gwefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, **Diwygio Cymorth Cyfreithiol**;
- Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Gyfiawnder, **Inquiry on Access to Justice and Sentencing Proposals**, Mawrth 2011.
- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Civil Legal Aid: changes since 1 April 2013,** Mai 2013;
- Grŵp Gweithredu Cyfreithiol, Gweithredu Cyfreithiol, **Continuing life under the LASPO Act**, Ebrill 2013.

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **cynulliadcymru.org/cy/bus-home/research.htm**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost i **Research.Service@cymru.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 13/2206**
**Jonathan Baxter**